# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 13-10 (p1) : 10 Mehefin 2010**

## Tystiolaeth a baratowyd gan Gyrfa Cymru (GC) ar gyfer yr ymchwiliad i Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

### Pwrpas

Archwilio effaith strategaethau ar bobl 16-24 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.

### Cefndir - Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Mae cyfoeth o ymchwil ar gael yn rhwydd am nodweddion, natur ac anghenion y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Mae goblygiadau peidio a mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddifrifol ac yn gostus i'r unigolion dan sylw ac i'r economi. Derbynnir fod pobl ifanc sydd wedi bod yn NEET, ar gyfartaledd, yn fwy tueddol i fod yn ddi-waith yn hwyrach ymlaen, i fod ag incwm is a bod â goblygiadau hyd yn oed mewn perthynas â lles a iechyd. Wrth ystyried y mater mewn perthynas â grwp oedran 16-24 mae'n bwysig edrych ar eu profiad o oedran llawer llai a'r ffordd y byddwn yn canfod y rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Darperir tueddiadau mewn perthynas â'r nifer o bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed yn Arolwg Hynt Gyrfa Cymru. Dengys arolwg 2009 fod gostyngiad yn y nifer o bobl ifanc yn dod yn NEET yn 16 oed o 6.8 yn 2005 i 5.7 yn 2009 gyda mwy o bobl ifanc yn aros mewn addysg llawn amser. Mae'r darlun yn gymhleth gan fod y cohort o bobl ifanc 16 ac 17 oed yn newid ac yn datblygu'n gyson. Mae cyfrif a dilyn y grwp hwn yn gymhleth.

### Cefndir swyddogaeth Gyrfa Cymru (GC)

**Mae Gyrfa Cymru** yn cynnwys chwe chwmni gyrfa wedi eu contractio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth benodol gysylltiedig â gyrfa i bobl Cymru. Mae gwasanaethau'n cynnwys darpariaeth cyfarwyddyd gyrfa, gwybodaeth gyrfa a chyngor manwl i gleientiaid o bob oed gan gynnwys trwy gyfrwng gwefan GC www.gyrfacymru.com, a chefnogi a datblygu partneriaethau addysg busnes. Bydd GC hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau wedi eu targedu trwy gyfrwng y cytundeb craidd i bobl ifanc sy'n ddi-waith (neu'n NEET) ac mae'n credu ei fod yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda hwn y gellid ei chryfhau ymhellach.

**Gwasanaethau Porth Addysg** – rhaglen ar gyfer pobl ifanc cyn 16 oed yn cynnwys cefnogaeth mentora i'r rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio yng Nghyfnod Allweddol 4, gyda chefnogaeth trosglwyddo yn 16 oed.

**Gwasanaethau Cyfarwyddyd Gyrfa** gan gynnwys cyfweliadau cyfarwyddyd gyrfa yn gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus a chefnogaeth i ystyried y cam nesaf

### Gwasanaethau Cyfeirio a Lleoli / Gwarant Ieuenctid y Llywodraeth

Mae GC yn rheoli cofrestr gynhwysfawr o bobl ddi-waith 16-18 oed. Cofrestrodd dros 11,000 o bobl ifanc 16-18 oed yn ddi-waith gyda Gyrfa Cymru yn 2009-10. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i leoli pobl ifanc a ni yw'r unig asiantaeth gymeradwyo ar gyfer rhaglen "Adeiladu Sgiliau" y llywodraeth. Fe roesom 67% o'r gadawyr oddi ar ein rhestr mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2009-10. Adnabuwyd fod gan 31% anghenion ychwanegol a chawsant eu cyfeirio at Borth Ieuenctid. Rhoesom gyfanswm o 8636 person ifanc ar Adeiladu Sgiliau, 323 ar hyfforddiant y brif ffrwd a 960 i gyflogaeth yn 2009-10.

**Porth Ieuenctid** yw'r rhaglen sy'n cynnig cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg Cyflogaeth na Hyfforddiant trwy raglen o asesiadau cychwynnol, ysgogiad a chefnogaeth fentora barhaus. Yn 2008-9 cyrhaeddodd 85% y cleientiaid a arolygwyd ganlyniadau cadarnhaol o fewn pedwar mis o gychwyn ar ddarpariaeth Porth Ieuenctid. (79% oedd y ffigur yn 2007 ac 83% yn 2008)

Ariennir gwasanaethau ychwanegol gan amrywiaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys Rhwydweithiau Dysgu 14-19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPIau). (atodiad 1 yn cynnwys astudiaethau achos)

### Crynodeb a Chasgliadau –

### A . Pa un ai a yw strategaethau Llywodraeth Cymru yn effeithiol yn rhoi canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;

### 1.Strategaeth Genedlaethol

1.1 Ers cyhoeddiad Strategaeth Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn 2009 mae cynnydd wedi bod yn anghyson mewn perthynas â gweithredu a sefydlu ffordd glir ymlaen i Gymru, er yr ymddengys bod y camau'n cyflymu erbyn hyn gyda grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog. Roedd y strategaeth uchod yn cyfleu nifer o'r materion allweddol a'r ffyrdd ymlaen mewn perthynas â'r "Systemau iawn, y gefnogaeth iawn a'r ddarpariaeth iawn." Mae GC ac asiantaethau partner eraill wedi cyflwyno'u barn ar flaenoriaethau gweithredu ar sawl achlysur. Mae angen dybryd i ystyried a datblygu ymarfer da sydd eisoes yn bod. Mae'r diffyg strategaeth wedi ei gyfuno gydag argaeledd arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi arwain at fwy o ddyblygu a darpariaeth anwastad dros Gymru.

1.2 Golyga'r sefyllfa bresennol fod o leiaf 22 o ymatebion gwahanol heb eu cydlynu i agenda NEET heb unrhyw atebolrwydd, dangosyddion perfformiad na thargedau ar gyfer gwelliant y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae gan y PPPIau a'r Rhwydweithiau 14-19 ym mhob awdurdod lleol gyllidebau, y gallant eu clustnodi i gefnogi'r agenda NEET fel y gwelant yn briodol, a mecanweithiau cynllunio ar wahân.

1.3 Mae llawer o fudd-ddeiliaid yn edrych am fwy o arweiniad a chyfeiriad gan y Cynulliad. Cyflawnir canlyniadau i bobl ifanc gan sefydliadau unigol sy'n gweithio'n galed iawn i wneud hyn. Golyga'r diffyg strategaeth a pholisi cydgysylltiedig, cydlyniant a chynllunio ar lefel genedlaethol a lefel leol nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio i'w heithaf. Ymddengys weithiau fod gwahanol adrannau'r Cynulliad yn aneglur ynglyn â'r modd y mae mentrau ar draws Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n perthnasu i'w gilydd.

**Argymhellir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu'r ymateb strategol trawsadrannol diweddar i Ddiweithdra Ieuenctid ymhellach mewn partneriaethau gyda phartneriaethau allanol arweiniol er mwyn cyflawni dull cydgysylltiedig wedi ei gydlynu, gan leihau dyblygiad a datblygu ar ymarfer da a ganfyddir.**

## 2. Continwwm cefnogaeth

2.1Pan ganfyddir fod person ifanc mewn perygl o fod yn NEET, rhaid sefydlu continwwm o gefnogaeth trwy'r gwahanol bwyntiau trosglwyddo mewn addysg a thu hwnt. Dylai'r person ifanc gael ei osod yn y canol a dylid cydnabod ei anghenion unigol. Mae tirlun y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn gymhleth. Mae angen cefnogaeth barhaus wedi'i phersonoli a'i theilwra arnynt gan gynnwys adfocatiaeth, dangos y ffordd a chyfeirio yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn amrywio o ffordd o fyw anhrefnus, peidio ymgysylltu gyda dysgu gan arwain at sgiliau sylfaenol sâl, i anawsterau dysgu ac anableddau. Mae angen i un asiantaeth gydlynu eu cefnogaeth a helpu i sicrhau fod asiantaethau'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd ynglyn â'r bobl ifanc hyn. Mae angen dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn cyswllt sy'n sicrhau ymgysylltiad â Gyrfa Cymru er mwyn mynd i ddysg neu gyflogaeth.

**Argymhellir fod sylw'n cael ei roi i siwrnai gyfan y cleient a wynebu rhwystrau wrth iddynt godi a sicrhau bod asiantaeth arweiniol sy'n cael ei nodi'n eglur ym mhob cyfnod. Dylai'r amrywiol fentrau sydd mewn lle wedi eu hariannu gan gronfa gydgyfeirio ESF, gysylltu'n well gyda'r rhai hynny a gynigir gan asiantaethau statudol, gyda chefnogaeth effeithiol yn cael ei chynnig er mwyn gwneud penderfyniadau gyrfa priodol.**

## 3.Darpariaeth Ddysgu a Chyflogaeth

3.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod yn eu blaenau yn y gwaith o ystyried y map dysgu seiliedig ar waith mewn ymgynghoriad â Gyrfa Cymru. Bydd y rhaglenni sy'n disodli Adeiladu Sgiliau yn 2011 yn cyflwyno mwy i ymgysylltu pobl ifanc sydd angen darpariaeth lefel mynediad. Ar hyn o bryd nid oes dilyniant bob amser i ddysgwyr fynd ymlaen i raglenni Prentisiaeth. Ychydig iawn o gefnogaeth i bobl ifanc NEET y mae rhaglenni prentisiaeth presennol sy'n canolbwyntio ar ymgeiswyr Lefel 3 yn ei gynnig. Mae cynnydd wedi cychwyn mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Bellach yn darparu cynnig mwy hyblyg gyda dyddiadau cychwyn trwy gydol y flwyddyn a darpariaeth ar lefel cyn mynediad. Mae angen i hyn ddod yn arfer cyffredin. Nid yw'r ffordd y comisiynir darpariaeth bob amser yn arwain at ateb anghenion lleol dysgwyr na'r economi. Mae'r dirwasgiad wedi golygu bod cyfleoedd i'r grwp hwn yn fwy prin fyth. Lle'r ymdrinnir â chyflogwyr yn unigol a'u hannog i ddarparu cyfle i berson ifanc, mae'n ymddangos bod mwy o lwyddiant nag ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol.

**Argymhellir fod datblygiadau yn narpariaeth dysgu'n parhau i ystyried barn budd-ddeiliaid ac yn cynnig dilyniant i ddysgwyr o bob gallu.**

## 4. Gyrfa Cymru a'r agenda NEET

4.1Mae gweithio partneriaeth effeithiol a chydweithio rhwng gwahanol asiantaethau'n hanfodol er mwyn sicrhau fod continwwm o gefnogaeth ar gyfer y grwp hwn o bobl ifanc. Mae angen casglu a rhannu data ar bobl ifanc a'i ddefnyddio gan wahanol asiantaethau a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.2Mae llawer o drafodaeth wedi bod ynglyn â datblygu cronfa ddata genedlaethol newydd o bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Fodd bynnag mae Gyrfa Cymru eisoes yn cadw'r amrediad cyfan o ddata personol ar bob person ifanc yng Nghymru o Flwyddyn 9 fan bellaf ymlaen, gan gynnwys data cysylltiedig â'r gwasanaethau y mae GC yn eu cyflwyno, dyheadau gyrfa cleientiaid, manylion am ddysg a gwaith blaenorol, cymwysterau ayyb a'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae gennym drefniadau da mewn lle gyda nifer o ddarparwyr er mwyn cael data ar ddysgwyr, y rhai sy'n gadael yn gynnar ayyb. Mae GC eisoes yn darparu llawer o ddata i'r Cynulliad ac yn treialu rhannu data gyda sefydliadau partner.

4.3 Mae gwaith Gyrfa Cymru gyda phobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi ei arddel gan Estyn mewn adroddiadau diweddar a'i gydnabod gan y Cynulliad yn ei ddogfen ymgynghoriad yn 2008 a awgrymodd y dylai Gyrfa Cymru gael swyddogaeth arweiniol gyda NEETS ac yn ddiweddarach yn 2009 pan awgrymwyd y dylai fod gennym "swyddogaeth gryfach". Ar hyn o bryd nid oes penderfyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o hyd. Mae'r Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru yn agosáu at ei ddiwedd. Mae'r argymhellion wedi eu cyflwyno i'r gweinidog. Er nad yw'r adroddiad bellach ar gael i'r cyhoedd, gobeithir y bydd yn adlewyrchu'r argymhellion isod.

4.4 Mae'n rhwystredig nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymelwa ar y swm sylweddol o wybodaeth a phrofiad sydd gan Gyrfa Cymru ynglyn â'r mater hwn. Ymddengys bod dyblygiad wedi bod i raddau yn yr ymchwil allanol y mae wedi ei gomisiynu. Roeddem yn

siomedig na chawsom ein cynrychioli ar y Grwp Tasg Diweithdra Ieuenctid a gafodd ei gynnull yn ddiweddar a'i gadeirio gan Martin Mansfield.

**Argymhellir fod Llywodraeth Cynulliad Cymru :**

**Yn cadarnhau mai GC sydd â'r swyddogaeth arweiniol yn y gwaith o gydlynu siwrnai'r cleient, rheoli continwwm o gefnogaeth wedi ei theilwra i ddysgwyr 16-18 oed a chydlynu strategaethau partneriaeth lleol i ddelio â materion NEET.**

**Yn defnyddio ac yn ehangu cynhwysedd rheoli data Gyrfa Cymru yn hytrach na datblygu system olrhain a rheoli gwybodaeth genedlaethol i bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.**

### B. Ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith (CBG) yng Nghymru i sicrhau polisi cydlynol

1. Mae datblygiad polisi Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith effeithiol a phriodol yng Nghymru yn anodd gan ei fod yn aml yn cael ei ddatblygu yn Lloegr lle mae'r dirwedd polisi a darpariaeth yn wahanol. Ni ddylid ei drosglwyddo i Gymru heb ystyriaeth ofalus. Enghraifft ddiweddar o hyn yw menter a ddatblygwyd gan CBG i weithio gyda phobl ifanc 16/17 oed. Mae hyn yn dyblygu gwaith cytundebol yr ymgymerwyd ag ef gan GC ar ran y Cynulliad. Mae Trafodaethau bellach yn digwydd er mwyn sicrhau fod datrysiad sydd wedi ei "wneud yn Gymru" yn cael ei ddatblygu, sy'n ystyriol o'r gwaith a wnaed gan Gyrfa Cymru ac a fydd yn darparu "gwerth ychwanegol". Mae'r ddwy ochr wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i wella'r trosglwyddiad o un gwasanaeth i'r llall yn 18 oed.

2. CBG a GC yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae grwp Llywio ar y cyd ar y model Grisiau Gyrfa. Mae cyd-beilotau Cyflogaeth a Sgiliau Integredig rhwng GC a CBG yn cynnwys y grwp 18-25. Gwelir cydweithrediad effeithiol rhwng staff ac mae cwsmeriaid yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan GC trwy gyfrwng offeryn a phroses "Skills Health Check."

3. Mae trafodaeth wedi bod gan y Cynulliad ac eraill ynglyn â gwella'r ffordd y rhoddir gwybod i bobl ifanc am swyddi gwag. Mae angen ystyried y "gwasanaeth cyfeirio a lleoli" a gynigir gan Gyrfa Cymru ar gyfer y rhai 16-18 oed a'r gwaith yr ydym yn ei wneud i ddatblygu'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth wrth ystyried gwelliannau.

**Argymhellir, er mwyn osgoi dyblygiad yn y maes cefnogaeth i bobl ifanc NEET, fod Gyrfa Cymru'n cael ei wahodd i ymuno â'r Cyd-grwp Gweithredu a sefydlwyd yn ddiweddar rhwng y Cynulliad, y Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau.**

### C. Delio ag anghenion y bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET a grwpiau 'mewn perygl' penodol

1. Casglodd ymchwil a wnaed ar ran Gyrfa Cymru gan Cordis Bright yn 2007 nad yw pobl ifanc NEET yn grwp cydryw ond eu bod yn fwy tebygol na'r cohort cyffredinol o fod, er enghraifft, yn fechgyn, o fod â hanes o beidio mynychu, o fod â statws "mewn gofal", hanes o waharddiadau, cyswllt gyda'r Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid ayyb. Byddai datblygiad o gynhwysedd Gyrfa Cymru mewn perthynas â rheoli data yn galluogi dadansoddiad mwy manwl o'r rhai hynny sy'n mynd i gohort NEET dros Gymru.

2. Mae dyblygiad yn y gefnogaeth i'r grwpiau hyn yn medru digwydd. Byddai mwy o eglurder mewn perthynas â swyddogaethau yn osgoi rhoi negeseuon cymysg i gleientiaid, gwell defnydd o adnoddau ac yn caniatáu i sefydliadau weithio yn ôl eu cryfderau.

3. Bydd Gyrfa Cymru'n gweithio'n effeithiol gyda nifer o sefydliadau partner i ganfod y cleientiaid hyn ac i ddelio â'u hanghenion. Mae enghreifftiau o arfer da presennol yn cynnwys secondiadau Cynghorwyr Gyrfa i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Ngogledd Cymru a darpariaeth wedi ei chontractio i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghaerdydd a'r Fro, gan roi mynediad i systemau SGR Gyrfa Cymru a chefnogaeth ddwys gysylltiedig â gyrfaoedd er mwyn mentora cleientiaid i ganlyniadau addas. Enghraifft arall yw'r cyswllt rheolaidd sy'n digwydd rhwng GC a staff 'Plant sy'n Derbyn Gofal" yr awdurdod lleol gyda chynadleddau achos ynglyn â phlant unigol a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn cytuno ar gamau nesaf. (MAE ATODIAD 1 YN DANGOS SUT MAE GC YN CYFLAWNI MEWN PARTNERIAETH)

**Argymhellir fod canllawiau cenedlaethol clir i alluogi dull cyson o ganfod y rhai hynny sydd mewn perygl o ddod yn NEET a chanllawiau wedi eu cyhoeddi ynglyn â chyfrifoldebau asiantaethau allweddol.**

### D. Statws trefniadau/cyd-drafodaethau ar gyfer cyllid Strwythurol Ewropeaidd presennol/yn y dyfodol ar gyfer cyflwyniad polisi NEET yng Nghymru.

1. Mae argaeledd Cyllid Ewropeaidd trwy Flaenoriaeth 1Cydgyfeirio'n cynnig cyfle gwirioneddol i fuddsoddi mewn darpariaeth gynaliadwy sydd ei hangen er mwyn canfod, asesu a chefnogi pobl ifanc. Fodd bynnag nid yw mesurau canlyniadau ESF bob amser yn gweddu ag amcanion y Cynulliad. Nid yw "ymgysylltiad" person ifanc mewn darpariaeth a ariennir yn gyfystyr â symud ymlaen i'r farchnad lafur a chynnal canlyniad. Mae argaeledd cyllid ESF er mwyn cefnogi'r agenda NEET wedi arwain at amlhad asiantau a phrosiectau'n gweithio gyda'r grwp cleient. Un maes lle sonnir fod hyn yn arbennig o amlwg yw'r cynnig o ddarpariaeth i ysgolion, i bobl ifanc sydd mewn addysg prif ffrwd ac mewn perygl o fod yn NEET. Dywedodd un athrawes fod mwy na 5 asiantaeth wedi dod ati yn cynnig cyrsiau i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn gwella cymhelliant, darparu gweithgareddau awyr agored ayyb. Yn aml, nid yw'r cyrsiau hyn yn cynnwys mentora a chefnogaeth barhaus i unigolion. Mewn rhai meysydd mae cyllid ESF yn ceisio dod â dull

gweithredu partneriaethol i'r gwaith.

2. Pan fydd y prosiectau hyn wedi eu cymeradwyo, ymddengys nad oes llawer iawn o ofyn iddynt gysylltu'n lleol i ddysgu pa ddarpariaeth sydd ei hangen nag i fynd at bobl ifanc a allai gael budd o gefnogaeth. Mae gan Gyrfa Cymru gynnig ESF Blaenoriaeth 1wedi ei gofnodi gyda WEFO ers dros 2 flynedd. Yn y cyfamser mae llawer o gynigion eraill wedi eu cymeradwyo, rhai ohonynt yn dyblygu gwasanaethau craidd a gynigir gan Gyrfa Cymru.

**Argymhellir fod y meini prawf a ddefnyddir i gymeradwyo cynigion Cydgyfeirio ESF Blaenoriaeth 1 yn cael eu hadolygu a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddull cydgysylltiedig i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dod i'r amlwg ac ar archwiliad mwy manwl o ddyblygiad.**

### E. Effeithiolrwydd cydweithrediad asiantaethau/ gweithio partneriaethol yn y gwaith o ddelio â materion NEET yng Nghymru a pha un ai a oes dyblygiad ymdrech yn y maes hwn;

1. Mae sefydliadau ar lefel leol, mewn nifer o achosion, wedi ffurfio partneriaethau effeithiol er mwyn cyflwyno darpariaeth, cefnogi'r cleient ayyb. Fodd bynnag, mae dyblygiad hefyd, yn arbennig mewn perthynas â chefnogaeth i bobl ifanc sy'n NEET, yn aml yn ganlyniad i gyllid prosiect ESF. Mewn rhai meysydd mae grwpiau strategaeth NEET effeithiol sy'n anelu i lunio strategaeth ranbarthol sy'n adnabod meysydd cyfrifoldeb allweddol pob sefydliad ac yn monitro cynllun.

2. Mae Wrecsam, lle'r oedd lleihau'r nifer o bobl ifanc nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn flaenoriaeth strategol, yn enghraifft dda o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd. Cyflawnwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer o bobl ifanc oedd yn NEET yn 16 oed, gan ddangos gostyngiad o 143 yn 2008 i 72 yn 2009. Roedd mentrau ar lefel weithredol yn cynnwys y Rhwydwaith 14-19 / Coleg Addysg Bellach yn cynnig darpariaeth fwy priodol wedi ei hanelu at ymgysylltu'r bobl ifanc yn fwy effeithiol mewn dysg, mwy o gefnogaeth fwy personol gan GC trwy gyfrwng cynghorydd Porth Ieuenctid penodol, cysylltiadau cryfach/agosach gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

3. Mae gan y PPPIau a'r Rhwydweithiau 14-19 ddiddordeb mewn mynd i'r afael â'r agenda NEET. Mae graddfa'r ymrwymiad yn amrywio dros Gymru. Mae peth dyblygiad mewn perthynas â'r rhwydweithiau hyn sy'n codi cwestiwn ynglyn ag a yw parhad bodolaeth y ddau ar wahân, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac eglurder, yn bosib yn y dyfodol.

**Argymhellir y dylid cyflwyno partneriaethau / cyfeiriadau strategol sy'n canolbwyntio ar yr agenda NEET yn raddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, wedi eu cadeirio a'u cydlynu gan y sefydliadau arweiniol. Dylai strategaethau rhanbarthol fod yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol wedi ei pharatoi mewn partneriaeth gan y Cynulliad ac asiantaethau allanol.**

### F. Goblygiadau Adolygiad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru o Wasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru ar weithrediad polisïau NEET.

1. Gweler paragraff 4.3 yn Adran A i gael gwybodaeth bellach os gwelwch yn dda.

Atodiad 1: Astudiaethau Achos ac Enghreifftiau o Arfer Da

**Astudiaeth Achos** – Cafodd Andrew ei gyfeirio at GC gan y **tîm Plant sy'n Derbyn Gofal**. Mynychodd raglen Porth Ieuenctid GC. Roedd ei deulu yn Llundain ac er ei fod yn hyderus roedd cefnogaeth yn brin ac nid oedd cyswllt gyda'i chwaer yn llesol. Ar ôl cyfarwyddyd gyrfa a mentora gan Gynghorydd Porth Ieuenctid cytunwyd y byddai'n gwneud cais i Adeiladu Sgiliau. Gwnaeth hyn gyda chefnogaeth a chafwyd hyd i leoliad wyth wythnos iddo mewn modurdy. Rhoddodd hyn wedyn yr hyder iddo wneud cais am le mewn coleg. Mae bellach yn byw'n annibynnol ac yn mynychu cwrs llawn amser yn y coleg.

**Astudiaeth Achos –** Cydweithrediad rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol a Gyrfa Cymru ynglyn â **phlant nad ydynt yn mynychu ysgolion y brif ffrwd**. Nid oedd Iolo wedi mynychu addysg llawn amser ers Blwyddyn 9 o ganlyniad i ddamwain. Ar ôl iddo wella ar ôl ei anafiadau roedd yn dal yn cwyno am boen yn ei ben glin. Cafodd ei gyfeirio gan yr AALl at Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant (CAMHS). Ni fyddai'n gadael y ty ac roedd yn derbyn addysg adref. Cafodd ei ddewis i fod yn rhan o fenter a ariannwyd gan y Rhwydwaith Dysgu 14-19 yn darparu Gweithwyr Cefnogi Trosglwyddiad o Gyrfa Cymru. Y cyflawniad cyntaf oedd mynd am dro gyda'i weithiwr a "sgwrsio". Nid yw'r gefnogaeth ddwys hon dros 12 mis wedi arwain at ganlyniad hyd yn hyn ac mae'n parhau. Fodd bynnag mae Iolo wedi mynychu, gyda chefnogaeth ei weithiwr, bore blasu mewn coleg lleol gyda'r gobaith o fynychu cwrs cynalwedigaethol.

**Astudiaeth Achos** – Cyfeiriwyd NC at **Raglen Anogwr Dysgu NEET Gyrfa Cymru gan ei weithiwr Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid**. Roedd y rhwystrau yr oedd yn eu hwynebu yn gymhleth ac yn amryfal. Nid oedd wedi mynychu'r ysgol am y 6 mlynedd ddiwethaf o addysg statudol. Roedd ei hyder ar ei isaf, roedd ganddo broblem yfed, roedd yn ddigartref, roedd ganddo sgiliau sylfaenol a chymdeithasol sâl ac roedd ganddo hanes o ddioddef o esgeulustod. Cyfeiriodd yr Anogwr Dysgu NC at gwrs datblygiad personol wedi ei ariannu gan y rhaglen ac yna at raglen Anogwr Dysgu arall, Prosiect "Allsorts, "a oedd yn canolbwyntio ar ei anghenion unigol ac yn adeiladu rhaglen yn arbennig ar ei gyfer. Erbyn hyn mae'n teimlo'n barod i gymryd rhan mewn hyfforddiant ehangach a chefnogaeth a gynigir gan Borth Ieuenctid. Ar ôl hyn ei fwriad yw symud i hyfforddiant y brif ffrwd gyda pharhad cefnogaeth gan ei Anogwr Dysgu a Chynghorydd Porth Ieuenctid.

**Arfer Da** Partneriaethau gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu mynediad i gyfarwyddyd gyrfa a chefnogaeth i **gymunedau teithwyr**. Yn Ne Orllewin Cymru mae Gyrfa Cymru, y swyddog lles addysg a'r ysgolion yn gweithio'n effeithiol i oresgyn rhwystrau diwylliannol. Maent yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhieni a phobl ifanc sydd bellach yn mynychu'r ysgol ac sydd wedi symud ymlaen i ddysgu seiliedig ar

waith a chyflogaeth. Mae pob cleient wedi gwneud trosglwyddiad llwyddiannus a pharhaol.

**Arfer Da** Ymgysylltiad cleientiaid o **grwpiau lleiafrif ethnig**. Mae Gyrfa Cymru'n cynnal rhaglen allgymorth yn targedu cymunedau penodol. e.e. y gymuned Somali yn Ne Ddwyrain Cymru. Eir â rhaglen Porth Ieuenctid i'w cymuned ac anogir cleientiaid i symud allan o'u cymuned ac ymgysylltu'n weithredol gydag addysg neu hyfforddiant.

**Arfer da: Cefnogaeth Trosglwyddo.** Yng Ngogledd Orllewin Cymru, bydd Cynghorwyr Gyrfa'n gweithio gyda nifer penodol o bobl ifanc y canfuwyd ym Mlwyddyn 11 fod ganddynt botensial o fod yn NEET. Cynigir cefnogaeth ychwanegol i'r bobl ifanc hyn yn ystod y cyfnod sy'n arwain at iddynt adael blwyddyn 11, trwy gydol y "cyfnod trosglwyddo" ac i'w cam nesaf. Mae'r gefnogaeth ychwanegol y maent yn ei derbyn gan y prosiect yn cael ei chynnig yn gymorth i'w hysgogi a rhoi hyder iddynt symud ymlaen i un ai addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl blwyddyn 11. Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf roedd 89% y bobl ifanc mewn canlyniadau cadarnhaol. (Cyllid Allanol)

**Arfer da** Gan ddatblygu ar argymhellion Ymchwil Cordis Bright yn 2007 a 2009 mae Gyrfa Cymru'n rhedeg rhaglen **Anogwr Dysgu NEET** mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio ail-ymgysylltu pobl ifanc 16-18 oed sy'n anodd cyrraedd atynt gyda llwybrau dysgu cadarnhaol trwy ddarparu cefnogaeth bersonol ddwys a chydlynu darpariaeth wedi ei theilwra'n unigol a'i hariannu sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o faterion a eill fod yn rhwystrau sy'n atal symud ymlaen. Mae darpariaeth wedi ei datblygu yn y gymuned ar lefel cyn-mynediad trwy rwydwaith o ddarparwyr gan gynnwys WBL, sefydliadau gwirfoddol ac elusennol a cholegau. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, sgiliau sylfaenol, annibyniaeth, cymhelliant a hunan-barch gyda chefnogaeth mentora gan Anogwyr Dysgu.